



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Datblygu strategaeth y gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol

Manyleb – Atodiad 1

Cefndir

Sefydlwyd Gofal Cymdeithasol Cymru (o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2014) ym mis Ebrill 2017 gan ddod â rheoleiddio'r gweithlu, datblygu'r gweithlu a gwella gwasanaethau gofal cymdeithasol o dan un sefydliad. Mae gennym rôl ddylanwadol yn y gwaith o lywio blaenoriaethau ymchwil a meithrin cysylltiadau cryf gyda rhanddeiliaid i wella gofal a chymorth. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd yn gyfrifol am ddatblygu'r gweithlu yn y sector gofal cymdeithasol a blynyddoedd cynnar. Mae ein gwaith yn ceisio cefnogi blaenoriaethau llesiant cenedlaethau'r dyfodol ar gyfer y sector, y cyhoedd a Llywodraeth Cymru. Mae'n tri nod strategol yn diffinio ein gwaith: rhoi hyder i'r cyhoedd, arwain a chefnogi gwelliannau a datblygu'r gweithlu.

Sefydlwyd Addysg a Gwella Iechyd Cymru ar 1 Hydref 2018 fel unfed sefydliad ar ddeg GIG Cymru. Fel Awdurdod Iechyd Arbennig, mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru 2019 yn gweithredu ochr yn ochr â Byrddau ac Ymddiriedolaethau Iechyd GIG Cymru ac mae ganddo rôl arweiniol yn y gwaith o addysgu, hyfforddi, datblygu a llywio'r gweithlu gofal iechyd yng Nghymru; gan gefnogi gofal o safon uchel i bobl Cymru.

Yn 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol* sy'n nodi ei gweledigaeth hirdymor o 'system gyfan iechyd a gofal cymdeithasol'.

Mae'r cynllun hwn hefyd yn nodi'r bwriad i *Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru i ddatblygu strategaeth hirdymor ar gyfer y gweithlu mewn partneriaeth â'r GIG a Llywodraeth Leol, y sector gwirfoddol ac annibynnol yn ogystal â rheoleiddwyr, cyrff proffesiynol a darparwyr addysg.*

Cyhoeddwyd Cymru Iachach fel ymateb i Adolygiad Seneddol Llywodraeth Cymru o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Mae adroddiad terfynol yr Adolygiad Seneddol yn cynnwys nifer o argymhellion lefel uchel ac fe'i cyhoeddwyd yn dilyn cyfnod o ymgysylltu helaeth gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid ac felly mae llawer o wybodaeth am faterion sy'n wynebu'r gweithlu eisoes ar gael.

Mae trafodaethau rhwng Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru wedi arwain at ddatblygu disgwyliad i ddatblygu strategaeth ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru a dull a all ddechrau gwaith ymgysylltu manwl drwy sgysiau, trafodaethau ac ymgynghoriadau gan arwain at strategaeth gadarn ar gyfer y gweithlu yn y pen draw.


Y disgwyliad yw bod strategaeth y gweithlu'n ystyried yr uchelgais a nodwyd yn *Cymru Iachach*:

“Datblygu Strategaeth y Gweithlu newydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, sy'n cynnwys cynllunio modelau gweithlu newydd, cryfhau ataliol llesiant a chyffredinol, sgiliau yn y Gymraeg, datblygu partneriaethau addysg a hyfforddiant strategol, cefnogi datblygiad gydol gyrfa ac amrywiaeth ar draws y gweithlu ehangach”

Mae'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol yn gymhleth iawn, gydag amrywiaeth eang o swyddi, sy'n gweithio mewn nifer o leoliadau sydd yr un mor amrywiol yn y sector statudol a thu hwnt. Mae yna wahaniaethau allweddol rhwng gweithluoedd y ddau sector – mae cyfran fawr o'r gweithlu gofal cymdeithasol yn cael ei gyflogi a'i reoli gan y sectorau annibynnol a phreifat, tra bod gan y GIG ystod ac amrywiaeth ehangach o swyddi proffesiynol a galwedigaethol. Hefyd, mae yna wahaniaeth amlwg rhwng y gweithlu gofal cymdeithasol “cyflogedig” a'r cyfraniad a wneir gan ofalwyr a allai fod yn aelodau o'r teulu neu berthnasau a gwirfoddolwyr hefyd. Mae'n rhaid cydnabod y gwahaniaeth hwn yn glir gan roi ystyriaeth i'w cyfraniad a'u hanghenion.

Mae'r cymhlethdod hwn yn cadarnhau'r angen am strategaeth y gweithlu sy'n hyblyg ac sy'n gweithredu fel llwyfan sy'n galluogi dull system gyfan o ddatblygu cynlluniau'r gweithlu ar gyfer grwpiau proffesiynol, ardaloedd daearyddol, gwasanaethau a systemau ond sy'n cydnabod a datblygu gwahaniaethau rhwng y sectorau ar yr un pryd. Er enghraifft, mewn rhai rhannau o'r system rydym am gynllunio model gweithlu sy'n ddi-dor rhwng iechyd a gofal cymdeithasol - blaenoriaeth yn Cymru Iachach, fodd bynnag, nid dyma'r unig flaenoriaeth o ran y gweithlu i'r GIG na Gofal Cymdeithasol ac mae'n bwysig bod strategaeth y gweithlu'n cydnabod hyn.

A Healthier Wales – A shared focus



Y nod yw llunio strategaeth y gweithlu a fydd yn diffinio bwriad strategol clir dros 10 mlynedd ac yn gweithredu fel fframwaith ar gyfer datblygu'r gweithlu ar draws

iechyd a gofal cymdeithasol ac y gellir ei defnyddio'n gyffredinol i lywio a chysoni strategaethau a chynlluniau'r gweithlu ar gyfer:

- Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
- Grwpiau proffesiynol unigol
- Gwasanaethau
- Lleoliadau gofal
- Y gweithlu cyfan ar draws lleoliadau statudol, gwirfoddol ac annibynnol, yn cynnwys y gweithlu cyflogedig a di-dâl
- Undebau

Bydd angen seilio strategaeth y gweithlu ar egwyddorion Cymru Iachach hefyd:

Bydd **gweithlu'r dyfodol** yn cael ei ddiffinio gan fodelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol integredig, sy'n seiliedig ar dystiolaeth o arferion da a chynaliadwyedd, i ddarparu iechyd a llesiant gwell.

Er mwyn gallu cynllunio gweithlu'r dyfodol yn effeithiol, mae angen dealltwriaeth glir **o'r gweithlu cyfredol** yn cynnwys yr heriau sy'n gysylltiedig â chynnal a pharhau â'r cyflenwad gwasanaethau cyfredol gyda dealltwriaeth o'r newidiadau sydd eu hangen yn y cymysgedd sgiliau i gefnogi modelau newydd o ddarparu gwasanaethau.

Bydd anghenion yn cael eu diwallu ar sail pwy sydd yn y sefyllfa orau i ddarparu'r gofal, nid staff sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol neu ar gontract yn unig. Bydd hyn yn cynnwys gweithwyr sydd wedi'u cyflogi y tu allan i sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol statudol e.e. cymdeithasau tai, y sector annibynnol a'r sector gwirfoddol.

Bydd rôl **gofalwyr di-dâl** yn cael ei chefnogi'n well, i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau i barhau i ofalu a bod eu hanghenion llesiant yn cael eu hystyried.

Bydd pob gweithiwr iechyd a gofal proffesiynol, sydd â lefelau tebyg o gyfrifoldeb ac atebolrwydd, yn cael yr **un parch**.

Bydd **iechyd a llesiant** staff yn cael ei gynnwys ym modelau gweithlu a gwasanaethau, yn cynnwys cymorth i reoli galw'n well, drwy ailgynllunio gwasanaethau.

Mae'n rhaid i addysg, hyfforddiant a datblygiad **esblygu ac amrywio** i gefnogi dull amlbroffesiynol, rhoi mwy o ffocws ar atal, ymyrraeth gynnar a darparu gofal ar draws lleoliadau o ofal cartref, sylfaenol a chymunedol i ofal mewn ysbyty a darpariaeth arbenigol.

Mae'n rhaid i newidiadau mewn disgwyliaid ynghylch gwaith a gyrfaoedd ysgogi **mwyo hyblygrwydd** mewn patrymau gwaith, addysg, hyfforddiant, llwybrau gyrfa a modelau gweithlu i wella recriwtio a chadw staff. Bydd hyn yn gwella'r cyfleoedd sy'n codi o ddysgu a gweithio rhan-amser, technoleg ddigidol a ffyrdd newydd o ddarparu triniaeth, gofal a chymorth.

Bydd mwy o hyblygrwydd yn gofyn am ddealltwriaeth o sut mae'r gweithlu wedi'i **leoli ar hyn o bryd** a'r mesurau y gellir eu cymryd i gryfhau dulliau lleoli sy'n galluogi'r gweithlu i fod mor symudol a hyblyg â phosibl wrth ateb galw gwasanaethau sy'n newid.

Bydd egwyddorion **darbodus** yn cael eu defnyddio i sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi i weithio hyd eithaf eu gallu ac i ysgogi'r gwaith o ehangu sgiliau cyffredinol.

Bydd dull **cydweithredol** system gyfan yn cael ei fabwysiadu i gysoni cynlluniau'r gweithlu, recriwtio a llwybrau gyrfa ar draws iechyd a gofal cymdeithasol i osgoi cystadleuaeth a dadsefydlogi.


Bydd y gwaith o **gynllunio'r** gweithlu ac adeiladu senarios yn cael ei wneud ar lefel genedlaethol, ranbarthol, sefydliadol a chlwstwr.

Bydd disgwyl hyrwyddo sgiliau **iaith Gymraeg** ar gyfer pob rôl weithredol, gyda rolau penodol yn cael eu nodi fel rhai Cymraeg hanfodol.

Beth sydd ei angen?

Amcan y contract hwn yw datblygu strategaeth y gweithlu ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol, yn unol â'r egwyddorion a nodwyd yn Cymru Iachach, fframwaith uchelgeisiol, caniataol ac ymarferol sy'n sail i waith cynllunio gweithlu a datblygu sefydliadol integredig ar draws y ddau sector. Bydd strategaeth y gweithlu'n diffinio bwriad strategol clir ar gyfer y 10 mlynedd nesaf ac yn cynnwys egwyddorion a disgwyliadau lefel uchel, gyda champau gweithredu eang ar gyfer y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir yn sail iddynt.

Daethpwyd i gytundeb mynegol ar nifer o themâu allweddol ar gyfer strategaeth y gweithlu, ond bydd raid profi'r rhain drwy ymgysylltu manwl â rhanddeiliaid allweddol, ar draws y sectorau. Mae'r themâu allweddol wedi'u nodi isod:



Ni ellir pwysleisio digon pa mor bwysig yw ymgysylltu cadarn, cynhwysfawr a manwl, os mai bwriad strategaeth y gweithlu yw creu ffocws a rennir sy'n cydnabod y cymhlethdodau rhwng y ddau sector a chael y rhai sydd yn y sefyllfa orau i sicrhau newid i fabwysiadu'r strategaeth yn llawn. Fodd bynnag, bydd angen ystyried y wybodaeth helaeth sydd eisoes wedi'i chasglu fel rhan o'r Adolygiad Seneddol o

Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru ac angen adolygu gwybodaeth a safbwyntiau cyfredol cyn ymgysylltu ymhellach.

Yn ogystal â'r egwyddorion a nodwyd yn *Cymru Iachach*, dylai'r cyflenwr llwyddiannus seilio'r gwaith o ddatblygu strategaeth y gweithlu ar egwyddorion eraill hefyd. Bydd angen i strategaeth y gweithlu:

- Gael ei chyd-gynhyrchu gydag ymgysylltiad llawn ar draws y ddau sector gan ystyried y wybodaeth a gasglwyd eisoes fel rhan o'r Adolygiad Seneddol
- Bod yn gryno ac wedi'i mynegi'n glir i'r ddau sector
- Bod yn fframwaith ymarferol sy'n cynnwys egwyddorion lefel uchel, wedi'u cefnogi gan gamau gweithredu eang
- Bod yn ddadansoddiad o fylchau rhwng yr hyn sydd ar gael eisoes a'r hyn sydd ei angen ar gyfer y dyfodol
- Nodi llinellau cyfrifoldeb clir h.y. pwy sy'n gwneud beth i gefnogi'r strategaeth
- Nodi cysylltiadau clir â strategaethau a pholisïau eraill, yn cynnwys sectorau eraill e.e. tai, blynyddoedd cynnar, cyflogaeth, addysg a sgiliau ac ati
- Canolbwyntio ar y gweithlu; beth sydd ei angen, gwelliannau a sut gall strategaeth y gweithlu gyd-fynd â'r nod pedwarplyg (fel y nodwyd yn *Cymru Iachach*)

Allbynnau Disgwyliedig

Bydd y cyflenwr yn cyflawni'r allbynnau canlynol mewn dau gam:

Cam Un

- Cynllun prosiect sy'n nodi'r gwaith sydd ei angen i gyflawni'r allbynnau ac sy'n bodloni disgwyliadau i gael ei gymeradwyo gan y grŵp llywio
- Adolygu'r wybodaeth gyfredol am y gweithlu e.e. a gasglwyd fel rhan o'r Adolygiad Seneddol, a gyhoeddwyd ac ati
- Darparu rhaglen o gyfleoedd ymgysylltu ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol, gan ystyried ffyrdd arloesol o gynnwys cymaint o bobl a rhanddeiliaid â phosibl, gan ofyn am gyn lleied o'u hamser â phosibl ac ar draws pob rhanbarth a ddiffiniwyd yng Nghymru
- Proffil o'r gweithlu cyfan ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, yn cynnwys disgrifiad rhifyddol o'r gweithlu a gyflogir yn uniongyrchol, y rhai a gyflogir yn y sectorau preifat ac annibynnol, contractwyr annibynnol e.e. Ymarfer Cyffredinol a'r gweithlu gwirfoddol a gofalwyr
- Disgrifiad lefel uchel o'r prif ysgogwyr a phroblemau/pwysau sy'n wynebu'r gweithlu cyfan e.e. proffiliau oedran, gwaith rhan-amser, rhywedd, y galw am sgiliau ac ati
- Sganio'r gorwel i nodi'r effeithiau strategol allweddol ar weithlu'r dyfodol yn cynnwys amcangyfrif o'r effaith bosibl ar niferoedd gweithlu'r dyfodol
- Dadansoddiad o fylchau gweithgareddau cyfredol a gynhelir ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol ar draws y gweithlu cyfan a'r effeithiau rhagweladwy ar y gweithlu cyfan dros gyfnod strategaeth y gweithlu a fydd yn helpu i lywio'r cynllun gweithredu lefel uchel.

Cam Dau

- Y fersiwn ddrafft gychwynnol o strategaeth y gweithlu, yn seiliedig ar nifer o themâu allweddol ac egwyddorion lefel uchel a chmau gweithredu eang cysylltiedig ar gyfer y 10 mlynedd nesaf y gellir ei defnyddio ar gyfer ymgynghori
- Fersiwn derfynol o strategaeth y gweithlu, sy'n gryno a chlir i'r ddau sector
- Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a gaiff drafft terfynol strategaeth y gweithlu.

Er mwyn cyflawni'r allbynnau gofynnol, bydd gofyn i'r cyflenwr:

- Fynychu cyfarfod prosiect cychwynnol i gadarnhau manylion a threfniadau'r gwaith gofynnol
- Darparu adnoddau a gweithgarwch ymgysylltu dwyieithog
- Adolygu'r wybodaeth gyfredol i weld pa ymgysylltu pellach sydd ei angen i gasglu barn
- Ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid allweddol a chael eu barn, yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i):
 - Llywodraeth Cymru yn cynnwys gofal cymdeithasol, iechyd, addysg a sgiliau
 - Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u gofalwyr

- Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol
 - Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
 - Prif Swyddogion Gweithredol y GIG
 - Cydffederasiwn y GIG
 - Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol y GIG
 - Cyfarwyddwyr Adnoddau Dynol Awdurdodau Lleol
 - Grwpiau cymheiriaid eraill y GIG
 - Cyflogwyr ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnwys cyflogwyr statudol, preifat a gwirfoddol ac ar draws gwasanaethau plant ac oedolion
 - Partneriaethau sgiliau rhanbarthol
 - Byrddau Cynllunio Rhanbarthol
 - Fforymau Darparwyr Cenedlaethol
 - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
 - Fforwm Partneriaeth Cymru
 - Cyngor Partneriaeth Cymru
 - Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
 - Cynghorau Gwirfoddol Sirol Lleol
 - Addysg Bellach
 - Addysg Uwch
 - Dysgu Seiliedig ar Waith a darparwyr hyfforddiant eraill
 - Arolygiaeth Gofal Cymru
 - Undebau Llafur
 - Yr Adran Gwaith a Phensiynau
 - Canolfan Byd Gwaith (yn cynnwys Hyrwyddwyr Gofal)
 - Gyrfa Cymru a Gyrfaoedd GIG Cymru
- Cyfarfod gydag arweinydd y prosiect fel bo angen a rhoi diweddariadau rheolaidd ar gynnydd yn erbyn cynllun y prosiect fel y'i cytunwyd.
 - Efallai y bydd angen mynychu cyfres o gyfarfodydd gyda'r grŵp llywio fel rhan o brosesau llywodraethu hefyd. Gall hyn ymestyn y tu hwnt i'r grŵp llywio a fydd yn llywio'r comisiwn hwn i wahanol fecanweithiau craffu gan Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn cynnwys digwyddiadau ymgynghori a lansio.